**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**Y BIL TROSEDDU DIFRIFOL**

## Cefndir

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir gosod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os bydd Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sy'n dod o fewn, neu sy'n addasu, cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

2. Cafodd y Bil Troseddu Difrifol ("y Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 5 Mehefin 2014. Mae'r Bil i'w weld yn:

   http://services.parliament.uk/bills/2014-15/seriouscrime.html

## Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

3. Noddir y Bil gan y Swyddfa Gartref. Prif nod polisi Llywodraeth y DU yw i'r Bil sicrhau bod gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith bwerau cyfreithiol effeithiol i ddelio â bygythiad troseddau difrifol a threfnedig.

4. Mae chwe rhan i'r Bil:

   - Mae Rhan 1 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag adennill eiddo sy'n deillio o elw troseddu.
   - Mae Rhan 2 yn gwneud gwelliannau i Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990.
   - Mae Rhan 3 yn darparu ar gyfer trosedd newydd sef cymryd rhan yng ngweithgareddau grŵp troseddu trefnedig ac yn cryfhau'r trefniadau i amddiffyn y cyhoedd rhag troseddu difrifol a gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gangiau y darperir ar eu cyfer yn Rhan 1 o Ddeddf Troseddu Difrifol 2007 a Rhan 4 o Ddeddf Plismona a Throsedd 2009 yn eu trefn.
   - Mae Rhan 4 yn darparu ar gyfer atafaelu a fforffedu sylweddau a ddefnyddir fel asiantau gwanhau cyffuriau.
   - Mae Rhan 5 yn diwygio'r gyfraith mewn perthynas â'r troseddau o greulondeb plant ac anffurfio organau cenhedlu menywod, yn darparu ar gyfer gorchmynion amddiffyn rhag anffurfio organau cenhedlu menywod ac yn creu trosedd newydd sef meddiannu "paedophile manuals".

- Mae Rhan 6 yn darparu ar gyfer, neu'n ymestyn awdurdodaeth alldiriogaethol mewn perthynas â'r troseddau yn adrannau 5 (paratoi gweithredoedd terfysgol) a 6 (hyfforddi ar gyfer terfysgaeth) o Ddeddf Terfysgaeth 2006 ac yn cyflwyno cymeradwyaeth Seneddol (fel sy'n ofynnol o dan adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd 2011) am ddau Benderfyniad drafft gan y Cyngor o dan Erthygl 352 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd. Mae Rhan 6 hefyd yn cynnwys mân welliannau a gwelliannau canlyniadol i ddeddfiadau a darpariaethau cyffredinol eraill, gan gynnwys darpariaethau ynghylch cymhwysiad tiriogaethol a chychwyn.

**Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer**

5. Y cyfeiriadau isod at rifau cymalau yw'r rhifau sydd yn y Bil fel y'i diwygiwyd yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi.

6. Mae Rhan 5, Cymal 65(1) i (4) yn gwneud gwelliannau i'r drosedd o greulondeb plant yn adran 1 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933. Y diben yw sicrhau bod yr agwedd ar y drosedd sy'n ymwneud â chamdriniaeth yn cynnwys camdriniaeth sy'n seicolegol yn ogystal â chorfforol. Mae'r drosedd yn cael ei diwygio fel y bydd yn drosedd trin plentyn mewn ffordd sy'n debygol o achosi dioddef neu anaf diangen i iechyd (gan gynnwys dioddef neu anaf corfforol a seicolegol). Mae iaith y drosedd hefyd yn cael ei moderneiddio fel bod y gair "misdemeanour" yn cael ei ddisodli gan "offence".

7. Mae Rhan 5, Cymal 65(5) a (6) yn gwneud gwelliannau pellach i adran 1 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 i ymestyn y drosedd o greulondeb plant lle mae plentyn o dan dair oed yn cael ei fygu. Ar hyn o bryd mae'r drosedd yn cynnwys amgylchiadau lle mae plentyn yn cael ei fygu pan fydd yn y gwely gyda pherson dros 16 oed sy'n feddw. Estynnir y drosedd i gynnwys amgylchiadau lle mae'r person dros 16 oed o dan ddylanwad cyffur gwaharddedig. Mae hefyd yn dileu'r gofyniad i'r mygu ddigwydd yn y gwely. Mae cwmpas y drosedd felly'n cael ei ehangu. Cafodd yr is-gymalau hyn eu mewnosod yn dilyn gwelliannau a osodwyd gan yr Arglwydd Bates ar 11 Hydref ac y cytunwyd arnynt yn y Cyfnod Adrodd ar 14 Hydref.

8. Ym marn Llywodraeth Cymru mae Cymal 65 fel y'i diwygiwyd yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y mae'n ymwneud â "protection and well-being of children (including adoption and fostering) and of young adults" (paragraff 15) o dan Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

9. Mae'r darpariaethau a amlinellir uchod yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

10. Nid yw'r darpariaethau a amlinellir uchod yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.

## Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad

11. Ym marn Llywodraeth Cymru mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn ym Mil y DU gan mai dyma'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru.  Mae'r cysylltiad rhwng systemau gweinyddol Cymru a Lloegr yn golygu mai'r dull gweithredu mwyaf effeithiol a phriodol fydd bwrw ymlaen â darpariaethau ar gyfer y ddwy system ar yr un pryd ac yn yr un offeryn deddfwriaethol.  Bydd hyn yn galluogi partneriaid heb eu datganoli sef yr Heddlu a'r Llysoedd i ddarparu partneriaeth a chymorth effeithiol o ran darparu fframwaith cryfach ar gyfer amddiffyn plant.

## Goblygiadau ariannol

12. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru.

**Mark Drakeford AC**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Tachwedd 2014**